# Beth rydym wedi'i wneud dros natur?, Chwefror 2018

19/02/2018



Llwybr Treftadaeth Ffordd Marriotts

Mae'r ymchwil hon yn edrych ar yr effaith y mae ein buddsoddiad wedi'i chael ers 1994 ar dirweddau, natur a'r sefydliadau sy'n hyrwyddo natur.

| Atodiad | Maint |
|---|---|
| What have we done for nature? | 5.34 MB |

Nod yr ymchwil hon oedd archwilio'r effaith strategol y mae buddsoddiad Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi'i chael ar dirweddau a natur. Edrychodd hefyd ar y sefydliadau sy'n hyrwyddo natur dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Dadansoddodd ein hymchwilwyr ddata dyfarnu grantiau rhwng 1994 a Mawrth 2017. Cyfwelwyd hefyd ag 20 o randdeiliaid allweddol o bob rhan o'r DU. Mae'r ymchwil yn cynnwys astudiaethau achos, data dyfarnu grantiau a dyfyniadau gan y nifer fawr o bobl a gyfwelwyd.

> Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri wedi buddsoddi mwy na £765miliwn mewn prosiectau tirwedd a natur.

Mae'r cyllid hwn wedi helpu i:

- adfer a gwarchod cynefinoedd sydd dan fygythiad
- arbed rhywogaethau rhag difodiant
- helpu i ailgysylltu pobl â thirweddau a natur
- caffael tir i wella ei gadwraeth
- gwella bioamrywiaeth drefol a mannau gwyrdd
- hyrwyddo gwyddoniaeth dinasyddion
- ennyn diddordeb gwirfoddolwyr
- cefnogi datblygiad sgiliau